

Gweddi dros Ddyfodol y gallwn ei Rannu

Dduw'r gorffennol,

y presennol

a'r dyfodol,

bydd gyda ni wrth i ni gamu ymlaen fel cenhedloedd gyda'n gilydd.

Boed i ni ymdrechu i garu

ein cymydog fel ni ein hunain

Gan wrando a siarad

yn barchus garedig,

a chan groesawu gwahaniaethau.

Wrth i ni gofio cymaint yr wyt ti wedi maddau iddynt,

Boed i ni gynnig caredigrwydd,

estyn trugaredd,

A cheisio tangnefedd a chyfiawnder

Mewn dyfodol y gallwn oll ei rannu. Amen

Dduw pob ffin a pherthyn,
Yn y dyddiau dig hyn,
Mae'n geiriau at ein gilydd mor galed.
Torri a hollti a chwalu perthynas yw popeth.
Sôn am ymylon dibyn, a thynnu'n ôl yn ddi-drefn.
Pan fo geiriau ddylai fod yn feddal
Yn galed.
Does dim undod i'n Hundeb. Cras yw'n Cymuned.

Rwy'n cyfaddef mai anodd yw llawenhau yng nghyfoeth dy fendith
Heb i'm gelyn ar yr un pryd gael ei felltithio â thlodi.
Rwy'n cyfaddef mor galed yw dathlu'r rhyddid a enillwyd i mi yng Nghrist
Heb i'm gwrthwynebydd fod ar goll am byth mewn caethiwed.

Felly maddau i mi os mai gwrid dicter sydd ar fy wyneb
A bod llaw fy nghyfeillgarwch
wedi cau yn ddwrn oer gelyniaeth.

Felly rwy'n gweddïo,

Cysura'r sawl sy'n gythryblus eu hysbryd
Yn ansicr eu dyfodol
Dwg dangnefedd i galonnau rhwygiedig
Yng ngwrthdaro eu teyrngarwch.
Dwg ddoethineb i feddyliau dryslyd
Yng nghyfnod y penderfyniadau pwysfawr.

Dysg i ni oll ras a haelioni
yn yr amser anghwrtais hwn
Tywys ni i weld sut i orfoleddu yn y rhyddid mae Iesu'n roi
Heb fynnu gweld dialedd Duw yn taro eraill.

Er mwyn ein tystiolaeth i Ti
Er mwyn ein cymdogion.
Er fy mwyn i.

Amen

*Dduw,
a wnaeth yn Iesu,
chwalu pob rhwystr,
rhwng pobl o bob hil
cyfoethog a thlawd,
gwryw a benyw,
Iddew a Chenedl-ddyn,
rhwng nefoedd a daear,
addolwn di.*

*Dduw,
yn awr pan fo cyfrifoldeb yn drwm arnom,
a phenderfyniadau ar y gorwel
am ein perthynas â'n cymdogion yn Ewrop,
gweddiwn dros ein harweinyddion:
iddynt arwain yn ddoeth;
iddynt wrando yn astud;
iddynt arfer gras;
ac y daw iddynt heddwch
yn eu trafodaethau.*

*Dduw,
yn y cyfnod hwn o ansicrwydd,
yn ein cenhedloedd ac yn ein cymunedau,
gweddiwn drosom ni ein hunain:
y byddwn yn dal yn agored at y dieithryn;
yn groesawgar i gymdogion;
ac yn sefyll gyda'r sawl sy'n brwydro.*

*Dduw,
gweddiwn dros dy eglwys yr ydym ni'n rhan ohoni:
fel y gallwn fod yn fan o fyfyrddod gonest;
deialog o barch;
cyfeillgarwch agored;
gostyngeiddrwydd a chymod.*

*Gweddiwn
i ni fod yn gymuned sydd â'i nod tua'r nef,
ac sy'n dangos, trwy niwl y ddaear, gipolwg o'r nefoedd.*

*Dduw,
sydd yn Iesu,
yn chwalu pob rhwystr,
rhwng pobl o bob hil
cyfoethog a thlawd,
gwryw a benyw,
Iddew a Chenedl-ddyn,
rhwng nefoedd a daear,
addolwn di.*

AMEN

Grist Byw,

Yr wyt ti gyda ni bob amser, yn rhannu disgleirdeb ein llawenydd ac yn rhodio gyda ni trwy'r dyddiau du.

Yr wyt yn llefaru geiriau doeth yn wyneb ein ffolineb,

Yr wyt yn llefaru geiriau cysurlon pan grynwn ni mewn ofn,

Ti sydd yn ceisio'r colledig a'r rhai sydd yn ymbalfalu am y ffordd.

Yn yr amseroedd hyn a ninnau'n ddryslyd, yn ansicr ac yn ofnus am ddyfodol ein cenedl, mae arnom angen dy ddoethineb, dy sicrwydd a'th drugaredd.

Llefara â ni oll yn awr, yn arweinwyr, dinasyddion, trigolion pryderus, y sawl sy'n codi llais a'r sawl y mae eu lleisiau'n cael eu mygu'n rhy aml. Cyflwynwn i ti fywyd ein cenedl a hiraethwn am i'th deyrnas dyner gael ei sefydlu yn ein plith.

Wrth i'n harweinwyr geisio penderfyniadau all fynd i'r afael â chyfyng gyngor,

Rho iddynt ddoethineb a gwir ddirnadaeth, fel mai'r hyn sydd flaenllaw ym meddyliau pobl yw nid mantais wleidyddol, ond lles pawb a phobun.

Wrth i bobl bryderu am yr hyn sydd gan y dyfodol i'w gynnig, helpa ni i lunio cymuned lle mae croeso i bawb, lle mae gan bawb lais, a lle mae gwir ymdeimlad o berthyn i'n gilydd.

Wrth i ni fod yn dystion i ddadleuon tanbaid sy'n tanio'n rhy gyflym yn gasineb,

Lleddfa ni a chynnau ynom oll dy addfwynder di, fel y gallwn fygu'r meddyliau sy'n arwain at wrthdaro.

Gofynnwn hyn yn enw Iesu Grist a geisiodd groesawu'r dieithryn, gwella'r trallodus a pharatoi llwybr drudfawr tuag at dangnefedd.

Amen.

Mae cariad Duw hyd byth, seiliedig ar Salm 136

Dduw yr wyt Ti yma,
Ti sydd yng nghanol pob bywyd
Ac y mae dy gariad Di am byth.
Yn ein llonyddwch ac yn ein rhuthr, ein mynd a'n dod, agor a chau –

Mae cariad Duw hyd byth

Yn ein cred a'n diffyg cred, ein ffydd a'n sicrwydd, amheuaeth a'n difrawder –

Mae cariad Duw hyd byth

Yn amser ein gwleddoedd a chyfnodau ein newyn, ein gormodedd a'n prinder, digon a dim digon –

Mae cariad Duw hyd byth

Yn ein dicter a'n loes, ein nwyd a'n poen, llawenydd ac eiddigedd, gorfoledd a gwadu –

Mae cariad Duw hyd byth

Yn ein clwyfo a'n hiacháu, ein ffurfio a'n trwsio, dod ynghyd ac ymbellhau -

Mae cariad Duw hyd byth

Yn ein rhoi a'n grwgnach, ein derbyn a'n gwarafun, cymryd a gwrthod -

Mae cariad Duw hyd byth

Yn ein ffurfio a'n chwalu, ein hadeiladu a'n dinistrio, croesawu a chasáu –

Mae cariad Duw hyd byth

Yn ein byw ac yn ein marw, ein gobaith a'n hanobaith, yn ein holl ddechreuadau a diwedd pob un ohonom–

Mae cariad Duw hyd byth. AMEN

Cusan

... a chyfiawnder a heddwch yn cusanu ei gilydd.
~ Salm 85:10 ~

Myfyrdod

Gwefusau'n gwasgu ac ymwahanu,
dau yn uno ac yn tynnu ymaith.
Trydan rhwng dau begwn.
Y tir sydd dan ein traed,
rhwng cyrraedd a gadael,
cyfarch a ffarwelio,
cwrdd ac ymadael,
gorffennol a dyfodol,
y funud hon a'r hyn na fu eto.

Man cyfarfod rhwng pryd hynny a'r ennyd hon.
Y cyfarfyddiad cyntaf
rhwng yr hyn oeddem a phwy a fyddwn,
rhwng y disgwyliad a'r gwir,
rhyngom ni ac arall.
Nid asio y mae cusan,
Nid sodro dau beth na dau berson ynghyd;
cerrynt ydyw
fel y gall egni lifo drwyddo.

Os bydd cyfiawnder a heddwch yn cusanu ei gilydd,
mae'n gyswilt agos
dros bellter bychan bach –
y wifren fyw,
lle daw'r gwrthio a'r tynnu
rhwng yr hyn sy'n iawn a'r hyn sy'n heddychlon
yn amlwg.

Gweddi Foreol

Wrth i'n traed gusanu'r ddaear,
wrth i'n gwefusau wasgu ynghyd
i lunio geiriau a meddyliau,
helpa ni i sylweddoli mai yn y tyndra hwn,
yn y gwrthio a'r tynnu,
y tyfwn ac y datblygwn.
Helpa ni i weld y gall yr ateb iawn
ddod i'r amlwg rhwng deubeth,
yn y cyffwrdd a'r ymadael.

Cynnig petrus i dderbyn,
yn noeth ac agored,
hawdd ei wrthod.
Gwarchod ni wrth i ni wneud ein hunain yn agored
i gusan rhywun arall. AMEN

Gweddi Hwyr

Y wal ddiadlam:

fydd bywyd byth yr un fath cyn nac ar ôl y gusan.
Wrth i ni dyfu a dysgu, ni sy'n penderfynu beth i'w dderbyn
a beth i'w wrthod,
yr hyn sy'n ein diffinio a'r hyn sy'n ein caethiwo.
Iachâ'r cusanau a'n clwyfodd,
sy'n ein bradychu neu'n bradychu ein teimladau,
a helpa ni i gusanu mewn cyfeillgarwch,
mewn cariad.

Helpa ni i ddwyn ynghyd y rhannau hynny o'n bywydau
A gadwyd ar wahân gennym.
Yn yr un modd ag y mae'r gusan gyntaf yn rhuthr gwyllt allan o ddiogelwch,
bydd gyda ni wrth i ni gamu i'r anwybod
lle mentrwn i ddwyn gwahanol bobl,
a sefyllfaoedd, ynghyd.
A boed i ni gusanu'n gyfiawn ac eofn,
Fel pan fydd cyfiawnder a heddwch yn cusanu ei gilydd. AMEN

Darlleniadau o'r Ysgrythur

*Salm 85 Cyfiawnder a heddwch yn cusanu ei gilydd
Luc 15:11–32 Y tad yn cusanu'r mab afradlon*

Bendith

Boed i'n dydd fod yn llawn cusanau,
gwefr drydanol posibiliadau,
lle mae'r nefoedd a'r ddaear yn cyd-gyfarfod. AMEN

Excerpt from 'Pray Now- Word of Life'

Copyright © Resourcing Worship Team, Mission and Discipleship Council,
The Church of Scotland 2017